**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Lesley Griffiths
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

8 Chwefror 2023

Annwyl Lesley,

Bil Bwyd (Cymru)

Ar 25 Ionawr, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr cynhyrchwyr a phroseswyr bwyd a diod ar y Bil Bwyd (Cymru) (y Bil). Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch eich sylwadau y gallai'r Bil ddefnyddio llawer o adnoddau a biwrocrataidd, awgrymodd Andy Richardson o Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, cyn i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno, y dylid herio adrannau Llywodraeth Cymru i ddangos sut maent yn cyflawni yn erbyn amcanion y ddeddfwriaeth.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod yr awgrym hwn yn ddiddorol, a hoffent ymgorffori'r dull hwn yn ein gwaith craffu ar y Bil. Felly, hoffai'r Aelodau gynnal ymarfer gan ddefnyddio'r nodau bwyd yn y Bil i ddeall sut y mae polisi trawsadrannol presennol Llywodraeth Cymru eisoes yn cyflawni nodau'r Bil.

Fel y gwyddoch, mae'r Bil yn nodi dau fath gwahanol o nodau bwyd. Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn nodi mai'r prif nod bwyd yw'r nod cyffredinol o ddarparu bwyd fforddiadwy, iach, ac sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol i bobl Cymru. Mae'r Memorandwm yn nodi bod y nodau bwyd eilaidd yn "ategu'r nod bwyd sylfaenol ac yn cwmpasu meysydd penodol, gan gynnwys: Llesiant economaidd, iechyd a chymdeithasol, addysg, yr amgylchedd a gwastraff bwyd."

Mae'r Bil yn cynnwys tabl gyda rhestr o'r nodau bwyd eilaidd a disgrifiad ar gyfer pob un:

| Nod | Disgrifiad |
|---|---|
| Llesiant economaidd | Creu cyfleoedd economaidd newydd drwy hybu bwyd a gynhyrchir yn lleol.<br>Hybu datblygiad economaidd, cymdeithasol a chymunedol cynaliadwy.<br>Annog cysylltiadau gwell rhwng cynhyrchwyr bwyd, proseswyr bwyd a defnyddwyr. |
| Iechyd a chymdeithasol | Lleihau diffyg maeth, tlodi bwyd a diffyg diogeledd bwyd.<br>Lleihau gordewdra.<br>Annog dosbarthiad teg o fwyd iach a chynaliadwy o fewn cymunedau.<br>Hybu manteision llesiant cymdeithasol bwyd, er enghraifft drwy dyfu cymunedol a thrwy randiroedd.<br>Hybu pwysigrwydd bwyta bwyd iach er mwyn gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol. |
| Addysg | Cynyddu ansawdd a hygyrchedd darpariaeth addysgol ar faterion sy'n ymwneud â bwyd.<br>Datblygu sgiliau bwyd er mwyn sicrhau<br>deiet gwell ac iachach a llesiant gwell. |
| Yr amgylchedd | Lleihau effeithiau amgylcheddol cynhyrchu, prosesu a bwyta bwyd.<br>Gwella ac adfywio'r amgylchedd naturiol drwy gynhyrchu bwyd.<br>Adfer a chynnal bioamrywiaeth a chynefinoedd drwy gynhyrchu bwyd.<br>Hybu system fwyd sy'n lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac sy'n addasu iddo ac sy'n lleihau ôl-troed amgylcheddol byd-eang Cymru. |
| Gwastraff bwyd | Lleihau gwastraff bwyd ar draws y system fwyd, gan gynnwys gwastraff bwyd gan gynhyrchwyr bwyd, proseswyr bwyd a defnyddwyr. |

A allwch chi nodi sut mae pob un o adrannau Llywodraeth Cymru yn cyflawni yn erbyn nodau bwyd eilaidd y Bil. Er fy mod yn deall ein bod yn gofyn i'r Llywodraeth wneud darn eang o waith trawsadrannol, byddwch hefyd yn ymwybodol mai prin iawn yw'r amser a roddir inni i wneud gwaith craffu deddfwriaethol. Felly, byddem yn croesawu cael ymateb gennych cyn ein sesiwn gyda'r

Gweinidog ar 16 Chwefror. Rydym yn derbyn y gallai'r ymateb hwn fod yn lefel uchel iawn. Os nad yw hynny'n ymarferol, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 3 Mawrth gan y byddai hyn yn rhoi amser inni ystyried eich ymateb a'i ymgorffori yn adroddiad cyfnod 1 y Bil.

Cofion,

Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.